



www.ASDinfoWales.co.uk

# Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI) Diweddariad Gogledd Cymru- Chwefror 2018



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Betsi Cadwaladr  
University Health Board



Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales



[www.ASDinfoWales.co.uk](http://www.ASDinfoWales.co.uk)



## Cefndir i'r GAI

Mae llawer o unigolion awtistig yn disgyn rhwng meini prawf ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu ac felly ni allant gael mynediad i gymorth emosiynol, ymddygiadol, iechyd meddwl isel na sgiliau bywyd.

Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £13 miliwn hyd at 2021 i ddatblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ledled Cymru. Bydd yr GAI yn darparu gwasanaethau diagnostig oedolion newydd; cefnogaeth gydol oes i unigolion awtistig (plant ac oedolion) eu teuluoedd a'u gofalwyr; help gyda throsglwyddo o ddarpariaeth plant i oedolion a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.

## Ethos a swyddogaeth y GAI

Ethos y gwasanaeth yw sicrhau bod unigolion awtistig a'u gofalwyr yn gallu cael mynediad i'r cyngor, cefnogaeth a'r ymyriadau sydd eu hangen i'w galluogi i gyrraedd eu llawn potensial, lle nad yw'r rhain ar gael fel arall.

Bydd y GAI yn darparu'r swyddogaethau canlynol:

- Asesiad o oedolion heb anabled dysgu neu ag anabled dysgu ysgafn nad oes ganddynt anhawster iechyd meddwl cymedrol i ddifrifol
- Gwybodaeth / cyngor / cefnogaeth yn dilyn asesiad, ac ymgynghori mewn perthynas ag asesiad diagnostig a chefnogaeth oedolion sydd ag anhawster iechyd meddwl cymedrol i ddifrifol neu anhawster dysgu cymedrol i ddifrifol
- Cymorth i oedolion ag awtistiaeth heb anabled dysgu neu ag anabled dysgu ysgafn heb anhawster iechyd meddwl cymedrol i ddifrifol
- Gwybodaeth / cyngor / cymorth yn dilyn asesiad ar gyfer plant ag awtistiaeth heb anabled dysgu neu gyda anabled dysgu ysgafn heb anhawster iechyd meddwl cymedrol i ddifrifol
- Cefnogaeth i rieni, teuluoedd, partneriaid a gofalwyr unigolion ag ASD a'r gweithwyr proffesiynol y maent yn eu cefnogi.
- Cyngor / hyfforddiant a chefnogaeth i asiantaethau sy'n cysylltu â phobl ag ASD.



Ni fydd y gwasanaeth yn darparu:

- Ymyrraeth argyfwng
- Gofal ysbaid
- Ymateb cyflym

I'r rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth (lle mae angen gwasanaethau eraill megis cymorth iechyd meddwl), bydd staff o'r GAI yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau eu bod yn gallu darparu cefnogaeth 'cyfeillgar i awtistiaeth'.

## Gweithrediad a Datblygiad ar draws Gogledd Cymru

Yng Ngogledd Cymru bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnal ar y cyd gan Gyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cefnogir y datblygiad o'r GAI gan Grŵp Strategol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau iechyd, gofal cymdeithasol, addysg a sefydliadau'r trydydd sector ar draws plant ac oedolion. Cefnogir y grŵp hwn gan grŵp gweithredol. Mae Grŵp Strategol GAI yn adrodd i Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru ac i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.




### Yn dod yn fuan- Cynhadledd GAI

Nod y gynhadledd fydd cyflwyno'r GAI a'r gwasanaethau ASA amrywiol ar draws Gogledd Cymru.

Wedi'i anelu at unrhyw un sydd â diddordeb yn natblygiad darpariaeth gwasanaeth ASD yng Ngogledd Cymru

## Strwythur y Gwasanaeth

Strwythur gwasanaeth arfaethedig ar gyfer GAI Gogledd Cymru





## Ffrydiau gwaith presennol

**Recriwtio** - Mae rhai swyddi GAI yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd yn:

[www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Jobs-and-careers/Current-Job-Vacancies/Home.aspx](http://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Jobs-and-careers/Current-Job-Vacancies/Home.aspx)

**Lleoliad**- Mae gwaith yn cael ei wneud i adnabod canolfan ganolog ar gyfer y tîm. Y weledigaeth yw cael un lleoliad ganolog a gorsafoedd gwaith ym mhob ardal ar gyfer staff GAI. Bydd asesiadau yn cael eu cynnal mewn lleoliadau cymunedol o gwmpas Gogledd Cymru.

**Prosiectau tanwariant** - Mae prosiectau'n cynnwys adnabod gwasanaethau presennol, diwrnodau alinio llwybrau, cynhadledd GAI, hyfforddiant ASD ar draws y rhanbarth a grwpiau cefnogi pryder / rheoli straen yn seiliedig ar yoga ar draws y rhanbarth.



### Nodwch y diwrnod- Digwyddiadau Llwybr

Digwyddiad Llwybr Cyntaf: Dydd Gwener 26<sup>ain</sup> Ionawr  
Digwyddiad Llwybr Dilynol: Dydd Mercher 7<sup>fed</sup> Mawrth

Nod y digwyddiadau yw galluogi cyfranogwyr i fod yn glir ynghylch sut mae'r IAS yn gweithio ochr yn ochr â gwasanaethau cyfredol eraill, er mwyn sicrhau effeithlonwydd a'r defnydd gorau o adnoddau.

Wedi'i anelu at Uwch Reolwyr o'r Sector Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Mewnbwn i'r gwasanaeth

Os ydych chi'n teimlo y gallwch gyfrannu at greu'r gwasanaeth newydd a chyffrous hwn, yr ydym am glywed gennych.

Rydym am i'r gwasanaeth hwn gael ei greu yn seiliedig ar anghenion y bobl a fydd yn ei ddefnyddio. Os oes gennych ASD ac os hoffech gymryd rhan. Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch eu cynorthwyo e.e. cyhoeddusrwydd, cynllunio, rhoi eich barn, recriwtio.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ein helpu mewn unrhyw ffordd, cysylltwch â ni, manylion cyswllt isod.

## Gwybodaeth bellach

ASDinfoWales: [www.ASDinfoWales.co.uk](http://www.ASDinfoWales.co.uk)

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig: [www.ASDinfoWales.co.uk/integrated-autism-service](http://www.ASDinfoWales.co.uk/integrated-autism-service)

## Cysylltwch â ni

**Mel Hough**, Ymarferydd Arbenigol GAI,

Rhif ffôn: 01352 701242

E-bost: [melanie.hough@flintshire.gov.uk](mailto:melanie.hough@flintshire.gov.uk)

**Sioned Thomas**, Swyddog Datblygu ASA Rhanbarthol,

Rhif ffôn: 07387261718

E-bost: [sioned.thomas@wlga.gov.uk](mailto:sioned.thomas@wlga.gov.uk)